Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

26 Mehefin, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r trefniadau terfynol ar gyfer ail-agor yr ysgol ar y 29.6.20

AIL AGOR YSGOLION – DIWEDDARIAD PENWEDDIG

Edrychwn ymlaen at groesawi ein disgyblion i adeilad **Hugh Owen**, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth ar y 29.6.20. Ein blaenoriaeth yw sicrhau diogelwch staff a disgyblion. Bydd Llyfrgell Hugh Owen yn parhau ar gau yn ystod yr amser hwn. Tra bod trefniadau penodol wedi eu gwneud ar gyfer disgyblion a staff Penweddig, mae campws Penglais yn parhau ar gau i bawb ond staff allweddol y Brifysgol. Rhwng 8:00 am a 5:00 pm, o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am gyfnod Penweddig ar y campws, mi fydd Adeilad Hugh Owen yn gweithredu fel ysgol. Am y rheswm hwn, ni fydd gan staff Prifysgol Aberystwyth fynediad i'r adeilad yn ystod yr oriau hyn.

Bydd disgyblion yn cael y cyfle i fynychu'r safle ar **3 achlysur** cyn gwyliau'r haf, er mwyn "dod i'r ysgol, dal ati i ddysgu, paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi". Bydd yr ysgol yn agor ar gyfer **traean** o'r disgyblion, **ar unrhyw un adeg**. Diwrnod olaf tymor yr haf fydd **17.7.20**

FFOCWS WYTHNOSAU OLAF Y TYMOR

Byddwn yn rhoi ffocws ar ddiogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol ein disgyblion a'n staff. Byddwn yn paratoi disgyblion a staff yn feddyliol, emosiynol ac yn ymarferol ar gyfer y 'normal newydd' ym mis Medi. Cynhelir sesiynau 'check-in' drwy ail-gysylltu fel cymuned ysgol, ail-sefydlu perthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion a chynnal 'check-in' o'r gefnogaeth sydd angen.

Bydd wythnosau olaf y tymor yn rhoi cyfle i 'ddal fyny', gan roi cyfle i bob disgybl weld eu hathrawon wyneb yn wyneb, er mwyn asesu eu lles a gweld pa gymorth sydd angen arnynt. Bydd hefyd ffocws ar sicrhau bod disgyblion yn 'barod i ddysgu'**:** gan baratoi disgyblion i ddysgu eto, ar eu cynnydd a'r camau nesaf. Parheir i gefnogi'r disgyblion i ddysgu o bell ac i weithio'n effeithiol o adref yn ogystal ag adnabod a chefnogi anghenion disgyblion unigol.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

DIWRNODAU DYCHWELYD DISGYBLION

Bydd pob blwyddyn ysgol yn mynychu'r safle ar ddiwrnod penodol:

Blwyddyn 7	Dydd Llun
Blwyddyn 8	Dydd Mawrth
Blwyddyn 9	Dydd Mercher
Blwyddyn 10	Dydd Iau
Blwyddyn 11, 12 + 13	Dydd Gwener

Noder ar gyfer disgyblion bl 12 a bl 13 bydd angen iddynt fynychu'r safle **drwy'r dydd**.

AMSERLEN Y DIWRNOD

Atodir amserlen enghreifftiol ar eich cyfer ar gyfer wythnosau olaf y tymor.
Ar gyfer blynyddoedd, 7, 8 a 9, bydd amserlen eich plentyn ar gael ar 'Show My Homework' erbyn heddiw, dydd Gwener 26.6.20. Ar gyfer Blynyddoedd 10,11, 12 a 13, bydd yr amserlenni yn barod ar 'Show My Homework' ar ddydd Llun 29.6.20.

Byddwn yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau cyn lleied o symudiad rhwng aelodau staff a disgyblion â phosib. O ganlyniad, mewn rhai achosion, efallai na fydd y disgyblion yn cael eu dysgu gan arbenigwr pwnc ar gyfer gwers. Er hyn, yr arbenigwr pwnc fydd wedi gosod y gwaith ac mae croeso i'r disgyblion gysylltu gyda'r arbenigwr pwnc gerfydd 'Show my Homework'.

GRWPIO DISGYBLION

Byddwn yn rhannu gwybodaeth grwpiau dosbarthiadau fel a ganlyn:

Bl 7, 8 a 9	Dydd Gwener, 26.6.20 ar 'Show My Homework'.
Bl 10, 11, 12 a 13	Dydd Llun, 29.6.20 ar 'Show My Homework'.

Pwysig Os ydych fel rhiant wedi penderfynu nad ydych yn dymuno danfon eich plentyn i'r ysgol ac yna yn newid eich meddwl, mae angen rhoi **wythnos lawn o rybudd** i'r Pennaeth eich bod yn dymuno danfon eich plentyn i'r ysgol drwy e-bost i ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk er mwyn rhoi amser digonol i addasu'r ddarpariaeth.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

MYNEDFA'R DISGYBLION I ADEILAD HUGH OWEN

Mae mynedfa'r disgybl i adeilad Hugh Owen, gyferbyn ag adeilad Penbryn. Bydd arwyddion yn dynodi llwybr y disgyblion at fynedfa'r disgyblion. Mae'r fynedfa wedi ei nodi ar y map sydd wedi ei hatodi.

TREFNIADAU GOLLWNG A CHASGLU DISGYBLION

BWS

Os bydd disgyblion yn teithio i safle Penweddig Huw Owen ar y bws, yna byddant yn cael eu gollwng wrth safle bws y Brifysgol. Mi fydd aelod staff yno i gynorthwyo'r disgyblion a'u cyfeirio ar hyd y llwybr, a chroesi'r groesfan, cyn cael eu harwain hyd at y pwynt darllen tymheredd.

CAR

Mi fydd angen i'r ceir fynd o gwmpas system unffordd y Brifysgol (gweler sleid 2) sy'n golygu bod y disgyblion yn cael eu tywys draw at ganolfan chwaraeon y Brifysgol, ac yna yn dilyn y ffordd heibio'r adran Wyddoniaeth, cyn cyrraedd pwynt cofnodi tymheredd ar gyfer disgyblion mewn ceir. Bydd disgyblion sy'n cael eu cludo mewn car **yn aros yn y ceir** er mwyn i'r staff gofnodi tymheredd y disgybl.

Os yw'r disgybl yn cerdded i'r safle, yna bydd angen cerdded at y man darllen tymheredd o flaen adeilad Huw Owen.

TREFNIADAU CASGLU DISGYBLION MEWN CEIR AR DDIWEDD Y DYDD

Mae angen casglu'r disgyblion yn yr un man ble rydych yn gollwng y disgyblion yn y bore. Byddwn yn stagro trefniant casglu'r disgyblion fel y ganlyn:

Disgyblion Ystafelloedd A	3:20 pm
Disgyblion Ystafelloedd C	3:25 pm
Disgyblion Ystafelloedd D	3:30 pm

GWYBODAETH O RAN TRAFNIDIAETH YSGOL - DIWEDDARIAD

Dim ond disgyblion sydd yn deilwng i dderbyn trafnidiaeth (ddim seddi sbâr) ac sydd wedi llenwi'r holiadur ar-lein yn nodi y byddant angen trafnidiaeth erbyn y terfyn amser bydd yn derbyn trafnidiaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Dylai pob un wnaeth lenwi'r holiadur ar wefan y Cyngor yn nodi bod eich plentyn angen trafnidiaeth fod **erbyn 5.00pm Ddydd Iau** wedi derbyn e-bost yn nodi os

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

ydych yn deilwng i dderbyn trafnidiaeth ai peidio. Os nad ydych wedi derbyn e-bost yn cadarnhau eich bod yn deilwng, yna nid oes trafnidiaeth wedi ei drefnu ar gyfer eich plentyn ac felly bydd angen iddynt chwilio ffordd arall i gyrraedd yr ysgol.

Bydd angen i **bob disgybl** bydd yn derbyn trafnidiaeth **wisgo gorchudd wyneb/mwgwd** – bydd angen i'r rhieni ddarparu rhain ar gyfer y disgyblion.

Bydd mygydau sbâr tafladwy ar y bys os yw disgyblion wedi anghofio eu mygydau. Os yw disgybl yn gwrthod gwisgo gorchudd wyneb/mwgwd yna **ni fydd** yn cael caniatâd i fynd ar y bys / yn y tacsi.

Os oes trafnidiaeth wedi ei drefnu ar gyfer eich plentyn a'ch bod fel rhiant/gofalwr yn newid eich meddwl o ran angen y trafnidiaeth, gofynnir i chi gysylltu â cptu@ceredigion.gov.uk er mwyn canslo'r darpariaeth.

Bydd yr Awdurdod yn gwneud 'spot-checks' o ran niferoedd o blant bydd yn dod oddi ar y bws ac i gadarnhau bod y disgyblion yn gwisgo mygydau ayb.

TREFNIANT CYMRYD TYMHEREDD DISGYBLION

Byddwn yn mesur tymheredd **pob disgybl** pan fyddant yn cyrraedd y safle, gan ddefnyddio thermomedr, isgoch, anymwthiol.

Os fydd disgyblion yn cyrraedd y safle **ar fws neu yn cerdded**, byddant yn cael eu harwain at y man darllen tymheredd gan yr athrawon. Os fydd y thermomedr yn dangos tymheredd uwchben 37.5°C, yna byddwn yn gofyn i'r disgybl fynd i fan aros, cyn ail-gymryd tymheredd drwy ddarllenydd clust. Os yw'r darlleniad yn parhau i fod uwchben 37.5°C , yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref er mwyn trefnu trafnidiaeth gartref ac i'r disgybl adael y safle .

Os fydd disgyblion yn cyrraedd y safle **mewn car**, bydd y disgyblion **yn aros yn eu ceir** er mwyn i'r staff gofnodi tymheredd y disgybl. Os yw'r thermomedr yn dangos bod y tymheredd uwchben 37.5°C, yna bydd gofyn i'r disgybl aros yn y car am 15 munud, cyn cymryd ail ddarlleniad tymheredd gan ddefnyddio mesurydd clust. Os yw'r darlleniad yn parhau i fod uwchben 37.5°C, yna bydd angen cludo'r disgybl adref.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

CANLLAW I RIENI / GWARCHODWYR OS YW EICH PLENTYN YN CAEL EI DDANFON ADREF O'R YSGOL OHERWYDD TYMHEREDD DROS 37.5°C NEU'N ARDDANGOS SYMPTOMAU COVID 19

Cyd-destun

- Mae tymheredd eich plentyn yn cael ei fesur wrth fynedfa'r ysgol yn ddyddiol gan ddefnyddio thermomedr golau ar y talcen. Os bydd y darlleniad dros 37.5°C yna ymhen tua chwarter awr, bydd ail ddarlleniad yn cael ei gymryd gan ddefnyddio thermomedr clust. Os bydd yr ail ddarlleniad hefyd yn nodi bod tymheredd eich plentyn dros 37.5°C yna bydd eich plentyn yn cael ei anfon adref.

- Os bydd disgybl yn mynd yn sâl gyda pheswch newydd, parhaus neu dymheredd uchel, neu'n sôn nad yw'n gallu blasu'n effeithiol, yn ystod y dydd, byddant yn cael ei hanfon adref.

Yn y ddau achos uchod bydd unrhyw frodyr, chwiorydd neu unrhyw un arall sy'n byw yn yr un cartref a'r disgybl hefyd yn cael eu hanfon gartref.

Camau nesaf :

1 Yn dilyn dychwelyd o'r ysgol, bydd angen i'r rhiant/gwarchodwr ffonio 119 neu fynd ar wefan https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test; er mwyn trefnu prawf Covid 19. Yn dilyn y prawf, bydd y canlyniad yn cyrraedd ymhen 48-72 awr.

2 Hyd nes daw canlyniad y prawf 'nôl bydd angen i BAWB sy'n byw gyda'r disgybl hunan ynysu.

3 Os bydd y prawf yn negyddol yna bydd angen i'r rhiant/gwarchodwr ddarparu tystiolaeth o hyn i'r ysgol(ion) cyn gall y disgybl/disgyblion fynychu ysgol eto.

4 Os daw'r prawf 'nôl yn gadarnhaol, bydd angen i BAWB sy'n byw yn y cartref hunan-ynysu am 14 diwrnod.

5 Yn dilyn prawf cadarnhaol, bydd Tîm Olrhain Cyswllt yr Awdurdod yn cysylltu gyda chi a bydd angen i chwi gydweithio'n agos gyda hwy er mwyn helpu atal yr haint i ledu ymhellach.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

TREFNIADAU YMBELLHAU CYMDEITHASOL AR Y SAFLE

Mae'n ofynnol bod staff a disgyblion yn cynnal ymbellhau cymdeithasol sydd o leiaf 2 fetr ar y safle. Mae'r ystafelloedd dosbarth ar y safle wedi cael eu mesur er mwyn

sicrhau bod y cynllun seddau yn cadw at ofynion o leiaf 2 fetr rhwng unigolion. Yn yr un modd, mae tâp melyn ar hyd y coridorau a'r mannau cerdded tu allan yr adeilad yn nodi gofynion ymbellhau cymdeithasol o 2m.

Mae amseroedd cinio ac egwyl wedi eu stagro er mwyn lleihau'r nifer o ddisgyblion yn ystod y cyfnodau hyn. Yn ystod yr amseroedd egwyl a chinio, ni fydd disgyblion yn cymysgu gyda disgyblion tu allan i'w grŵp.

Ar gyfer egwyl a chinio, mae'r byrddau bwyd a meinciau pren ar y piazza, tu allan i Ganolfan y Celfyddydau yn nodi ymbellhau cymdeithasol o 2m.

Bydd ymbellhau cymdeithasol dan oruchwyliaeth yn ystod y diwrnod ysgol, amseroedd cinio ac egwyl.

Er mwyn lleihau risg trosglwyddiad, ble'n bosibl, bydd yr un staff yn rhyng-weithio gyda'r un grŵp o ddisgyblion dros amser.

Bydd disgyblion yn cael eu cadw mewn cohorts bach a bydd symudiad rhwng yr ystafelloedd dysgu yn cael ei leihau.

Mae system un-ffordd ar waith ar y safle.

Bydd tai bach yn cael eu defnyddio ar sail 'un mewn, un allan'. Bydd goruchwyliaeth gan athrawon er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol.

Ble'n bosib, byddwn yn osgoi grwpiau amryfal o ddisgyblion yn rhyngweithio neu'n cael cyfle i ryngweithio.

GOLCHI DWYLO / HYLENDID

Bydd staff a disgyblion yn cael eu hatgoffa i gynnal hylendid dwylo rheolaidd a golchi dwylo'n effeithiol. Mae posteri'n weledol o gwmpas y safle ac fe fydd cyfleusterau golchi dwylo a "sanitizer" dwylo ar gael i ddisgyblion a staff olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae disgwyliadau clir o ran hylendid dwylo – pan yn cyrraedd y safle,cyn, ar ôl egwyl, cyn bwyta, cyn mynd nôl i'r ystafell ddosbarth, ar ôl defnyddio'r tŷ bach, cyn gadael y safle. Gweler y posteri sydd wedi eu hamgau.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bydd glanhau ar y safle yn cael ei gynyddu yn ystod y diwrnod. Bydd hyn yn cynnwys glanhau rheolaidd desgiau, cadeiriau, dolenni drysau, paneli drysau a chanllawiau grisiau. Bydd trefniadau glanhau gyda'r hwyr yn parhau.

Bydd angen i ddisgyblion fynd a'u sbwriel o'u hegwyl/cinio adref.

Bydd ystafelloedd ynysu yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd yn dangos symptomau Covid 19 nes bydd rhiant/gofalwr yn medru casglu'r disgybl o'r safle. Bydd staff yn dilyn y protocol anghenrheidiol iechyd a diogelwch pan yn defnyddio'r ystafelloedd ynysu a gofalu am ddisgyblion.

Mae ystafell Cymorth Cyntaf ar wahân ar y safle ar gyfer ymdrîn ag achosion cymorth cyntaf.

TAI BACH

Bydd tŷ bach penodol yn cael ei benodi ar gyfer pob ystafell ddysgu. Mi fydd yr athro o dan ofal y sesiwn yn rhyddhau'r disgtblion i'r toiled. Dim ond 1 disgybl o bob dosbarth fydd yn cael mynd i'r tŷ bach ar y tro.

PPE

Mae canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru ar PPE yn nodi nid oes angen PPE wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgol arferol o fewn yr ystafell ddosbarth neu amgylchedd yr ysgol, er hyn, gall ddisgyblion wisgo mwgwd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd PPE yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gofal personol a chymorth cyntaf.

GWISG YSGOL AR GYFER WYTHNOSAU OLAF TYMOR YR HAF

Gofynnwn i'n disgyblion sydd yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer wythnosau olaf y tymor i wisgo'n smart ac yn ymarferol, fel a ganlyn:

Crys polo ysgol **neu** siwmper ysgol **neu** grys rygbi ysgol **neu** grys addysg gorfforol yr ysgol (rhaid cael logo'r ysgol ar y dilledyn).

Trwser **neu** sgert **neu** siorts smart ac ymarferol

Cot (i'w gadw yn y bag, o dan y ddesg, tra yn yr adeilad)

Esgidiau ymarferol – caniateir "trainers" ond **dim** flip-flops, sandalau, esgidiau sodlau uchel (rhaid i draed y disgyblion fod wedi eu gorchuddio).

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Oherwydd rhesymau glendid, gofynnir i ddisgyblion **i beidio gwisgo unrhyw emwaith.**
Dim ewinedd ffals na farnais ewinedd

GWISG AR GYFER DISGYBLION Y 6ED DOSBARTH

Siwmper y Chweched / neu grys wen ond **dim** tei ysgol
Trwser **neu** sgert **neu** siorts smart ac ymarferol
Cot (i'w gadw yn y bag tra yn adeilad Hugh Owen)
Esgidiau ymarferol – caniateir "trainers" ond **dim** flip-flops, sandalau, esgidiau sodlau uchel (rhaid i draed y disgyblion fod wedi eu gorchuddio)
Oherwydd rhesymau glendid, gofynnir i ddisgyblion **i beidio gwisgo unrhyw emwaith.**
Dim ewinedd ffals na farnais ewinedd

OFFER AR GYFER WYTHNOSAU OLAF Y TYMOR

Bydd angen i'ch plentyn ddod â :

Phecyn bwyd (yn cynnwys pecyn iâ) - bydd angen i ddisgyblion ddychwelyd eu sbwriel o'u hegwyl /cinio adref.
Potel dŵr mawr eu hunain wedi ei labelu gydag enw'r disgybl – noder nid oes modd i unrhyw ddisgyblion lenwi potel dŵr ar y safle dŵr oherwydd rhesymau hylendid.
Chås pensiliau i'r ysgol
Phapur Ysgrifennu
Ffôn / Gliniadur/ Tabled wedi'i wefru'n llawn (Os nad oes dyfais gennych, mi fydd yr athro yn medru cyrchu'r gwaith ar eich cyfer ac yn medru ei arddangos ar sgrîn ryngweithiol y dosbarth)
Cot (i'w gadw yn y bag ysgol, o dan y ddesg, tra'n yr adeilad)
Bydd angen i'r disgybl gyrraedd yr ysgol yn gwisgo eli haul. Dylir dod ag eli haul os oes angen rhoi mwy ymlaen yn ystod y dydd. Ni fyddwn yn medru darparu eli-haul.
Mae angen i bob plentyn ddod a het haul (i'w gadw yn y bag, tra yn yr adeilad).

Mae angen sicrhau bod y disgyblion wedi paratoi ynghynt er mwyn dod â'r offer uchod angenrheidiol uchod i'r ysgol yn ddyddiol. O hyn ymlaen, ni fydd yn ymarferol benthyg offer gan ffrindiau ac ni fydd yr ysgol yn gallu darparu offer.

Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith sydd wedi ei gwblhau yn flaenorol yn y cartref er mwyn ei farcio, ac ni fydd unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar bapur ar y safle yn cael ei gyflwyno i'r athro. Bydd disgyblion yn parhau i gyflwyno'r gwaith drwy drefniant

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

'Show My Homework'. Gweler linc isod sut i gyflwyno gwaith ar 'Show My Homework'

https://help.teamsatchel.com/en/collections/1695417-students

Gall disgyblion ddod â gliniadur, tabled neu ffôn symudol er mwyn cael mynediad i'r wefan 'Show My Homework'. Pwrpas hyn yw hwyluso'r addysgu. Defnyddir y ffonau o fewn yr ystafell ddosbarth er mwyn cael mynediad i wybodaeth' Show My Homework' yn unig. Bydd yr athro yn rhoi caniatâd i'r disgyblion ddefnyddio eu ffonau am gyfnod penodol er mwyn casglu gwybodaeth oddi ar wefan SMH, ac yna bydd angen i'r disgyblion gadw eu ffonau o'r golwg tan y bydd caniatâd pellach yn cael ei roi i'r disgyblion.

Ni ddylid gweld na chlywed ffonau ar goridorau nac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Rhaid diffodd holl sain ffonau yn ystod gwersi.

Ni ddylai disgyblion wneud unrhyw alwadau ffôn na anfon neges destun at eraill yn yr ysgol.

Gwaherddir tynnu lluniau neu ffilmio disgyblion ac athrawon.

YMDDYGIAD

Fel ysgol, rydym wedi addasu ein disgwyliadau ymddygiad gan ein disgyblion ar y safle ac yn ystod COVID 19 er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion a staff. Atodir copïau o bolisï 'Dewch a'ch Dyfais' ar gyfer adeilad Hugh Owen yn ogystal â addendum i bolisi ymddygiad yr ysgol ar gyfer y cyfnod hwn.

Byddwn yn rhannu ffilm ar gyfrif facebook yr ysgol er mwyn i'r disgyblion sydd yn dychwelyd i'r safle yr wythnos nesaf gyfarwyddo gydag adeilad Hugh Owen a threfniant yr ysgol ar y safle. Mae croeso i chi f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Carwn ddiolch yn fawr iawn i staff Prifysgol Aberystwyth, yr Awdurdod Lleol a staff yr ysgol am eu cymorth a'u cefnogaeth barod wrth baratoi ar gyfer ein had-leoliad i Gampws Penglais ar gyfer wythnosau olaf tymor yr haf. Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawi ein disgyblion yn ôl i'r ysgol yr wythnos nesaf.

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,
Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro